



Cefnogi Trydydd Sector **Cymru**

Third Sector Support **Wales**

Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

1. Cafodd yr ymateb hwn ei ysgrifennu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), yn dilyn ymgysylltiad â thrawstoriad o fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru, er mwyn cyflwyno persbectif y trydydd sector ar fframwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol.
2. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
3. Mae'r safbwyntiau a gyflwynir yn seiliedig ar ymgynghori helaeth â'r trydydd sector ac aelodau CGGC trwy:
 - ddwy weminar ryngweithiol, a ddarparwyd mewn partneriaeth â WEFO
 - tri ymarferiad ymgynghori ar-lein
 - holiadur
 - ymgysylltu uniongyrchol â mudiadau o'r sector.
4. Bu CGGC ynghlwm â chynllunio a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru ers 2000, o ddatblygu dogfennau rhaglen Amcan Un, at ddarparu ystod o weithrediadau trwy'r rhaglenni olynol (megis y Gronfa Risg Gymdeithasol, y Farchnad Lafur Drosiannol a'r Porth Ymgysylltu a'r Cronfeydd Cynhwysiant Gweithredol a Thyfu Busnesau Cymdeithasol presennol).
5. Enillodd CGGC statws Corff Cyfryngol (IB) o dan raglenni 2014-2020, fel cydnabyddiaeth o'i allu i reoli a gweinyddu'n effeithiol grantiau cystadleuol ar ran Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).
6. Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC) yn rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr 19 corff cefnogi lleol a rhanbarthol ledled Cymru – y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) a CGGC, y corff cefnogi cenedlaethol.

Cwestiwn 1: Beth yw'ch safbwynt ynglŷn â model lle:

- **caiff mentrau strategol, Cymru gyfan eu cydlynu ar lefel genedlaethol; a**

- **bydd cyrff rhanbarthol dynodedig yn cynllunio a darparu eu rhaglenni buddsoddi eu hunain yn gydnaws â pholisi ar lefel genedlaethol?**
7. Mae angen model cyflawni sy'n cynnwys cymysgedd o fuddsoddiad a gweithgarwch ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol er mwyn cyflawni'r canlyniadau ffafredig, gyda'r lefel o weinyddiaeth ar bob haen lywodraethiant yn gyfrannol i'r dasg. Bydd angen ymgymryd â rhai mentrau ar lefel genedlaethol ond dylid caniatáu ar gyfer digon o hyblygrwydd o fewn y rhaglenni hyn er mwyn darparu ar gyfer gwahanol ranbarthau a chymunedau.
 8. Lle bo'n addas, bydd darpariaeth wedi'i gyd-lynu'n genedlaethol yn lleihau dyblygu gweithgarwch a gwariant. Mae canlyniadau ffafredig a blaenoriaethau'r rhanbarthau, a'r strwythurau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hwy, yn debyg iawn. Ceir perygl y gallai cyfran sylweddol o'r cyllid gael ei wario ar ddyblygu'r broses weinyddol ym mhob rhanbarth, tra gellid gwneud arbedion maint trwy fwy o gydlynu ar lefel genedlaethol.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cefnogi ein cynigion bod rhai buddsoddiadau'n cael eu harwain gan y gymuned lle cynhelir y gweithgarwch?

9. Mae angen diffiniad o'r term 'cymuned', yn y cyd-destun hwn. Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried eu hunain i weithredu ar lefel gymunedol; mae rhai'n dadlau dros grwpiau gweithredu lleol (y model 'Arweinydd') ac mae eraill yn diffinio cymuned fel gweithredu ar lefel y dref neu'r ward.
10. Dylai cymunedau fod wedi ymrwymo'n llwyr i gynllunio a gweithredu'r holl weithgarwch a dargedwyd i gymunedau, er mwyn annog datblygiad wedi'i arwain gan y gymuned, gweithio fel partneriaeth gyfartal a chyd-gynhyrchu gweithgarwch – hyd yn oed os nad nhw yw'r mwyaf addas i arwain y ddarpariaeth o'r gweithgarwch.
11. Waeth beth fo'i ffynhonnell, mae'r ddarpariaeth i gyd yn lleol ac felly mae'n hanfodol fod gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn cael eu hymgorffori i'r holl gynigion cyflawni. Mae'r hierarchaeth benderfynu bresennol, ynghyd â'r plethora o bartneriaethau ar lefel leol a ranbarthol, yn aml yn rhwystro nifer o bartneriaid rhag arwain a chael mynediad at unrhyw fuddsoddiad sydd ar gael. Mae'r haenau o bartneriaethau a rhwydweithiau yn gymhleth ac, ar adegau, yn andwyol. (Gweler yr enghraifft a restrir yn Atodiad A enghraifft 1). Mae'r strwythurau hyn a'u sianeli cyfathrebu cysylltiedig yn aml yn ffafrio'r gwasanaethau cyhoeddus ar draul partneriaid eraill. Mae perygl i'r fframwaith arfaethedig gynnal y *status quo* presennol neu o bosibl, hyd yn oed, ei gymhlethu ymhellach trwy greu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth. Rhaid symleiddio'r strwythurau hyn er mwyn annog mwy o ymrwymiad, cynrychiolaeth a dylanwad gan y trydydd sector.
12. Mae argyfwng Covid-19 wedi dangos y gall gweithredu lleol ddigwydd yn gyflym os caiff strwythurau a lefelau biwrocratiaeth sydd, ar adegau, yn andwyol eu lleihau. Mae cymunedau wedi profi eu bod yn medru addasu'n gyflym, tra'n cyfuno gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn wedi digwydd y tu allan i'r strwythurau traddodiadol a'r fiwrocratiaeth sy'n aml yn peri oedi

sylweddol i weithgarwch ymarferol. Rhaid cydnabod a dysgu o hyn wrth i ni symud ymlaen. Mae'r ffordd bresennol o weithio wedi symud cydweithio yn ei flaen yn gyflym mewn nifer o ffyrdd, ac mae'n bwysig nad ydym yn colli'r momentwm hwn. Gweler yr enghreifftiau a restrir yn Atodiad A (enghreifftiau 2 a 3), os gwelwch yn dda.

13. Mae gan Gymru'r cydrannau sydd eu hangen arni i alluogi hyn trwy'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD). Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) eu sefydlu mewn ymateb i'r Ddeddf. Mae'r BGCau yn darparu cyfle y gellid adeiladu arno i yrru yn ei flaen dirprwyaeth benderfynu at lefel leol, gydag ambell newid bach i'w strwythurau.
14. Er mwyn gwireddu newidiadau yn ein cymunedau rhaid iddynt gael eu galluogi i wneud y newid eu hunain. Ni allwn barhau i wneud pethau dros bobl yn unig, rhaid cyflawni gyda phobl. Gellid dynodi cyllideb ddatganoledig ar gyfer gweithgarwch cymunedol penodol trwy strwythur fel caiff ei manylu uchod (pwynt 13) er mwyn cynorthwyo i hwyluso hyn.
15. Mae'r economi sylfaen a meicrofudiadau wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac mae ganddynt werthoedd cymdeithasol clir. Rhaid cael ffocws ar gefnogi a datblygu'r cadwyni cyflenwi byr hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r economi ddi-garbon.
16. Mae gan Gymru'r isadeiledd cymunedol lleol i gefnogi'r gwaith hwn ledled y wlad trwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC). Mae CTSC yn cynnwys yr 19 corff cefnogi lleol a rhanbarthol ar draws Cymru – y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) a CGGC, y corff cefnogi cenedlaethol. Mae'r CGSau eisoes wedi ymgymryd â mwy o rôl yn ystod y cyfnod diweddar – yn broceru perthnasoedd ac yn cefnogi meicrofudiadau i gael mwy o effaith mewn cymunedau - ond gyda'r gefnogaeth gywir, gellid cyflawni mwy. Gellid galluogi cymunedau i baratoi ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol mewn ystyr ehangach a chynorthwyo i ailadeiladu economïau sylfaenol.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gynyddu ein defnydd o gyllid ad-daladwy lle bo hynny'n ymarferol a, lle nad ydyw, y dylid datblygu modelau o gefnogaeth gyfunol sy'n mwyhau'r elfen ad-daladwy?

17. Mantais allweddol cyllid ad-daladwy yw'r cyllid etifeddol a gynhyrcha, y gellir ei ailgylchu i fuddsoddiadau pellach. Dylid ymddiried y cyllid ailgylchadwy i'r sawl sy'n dosbarthu'r buddsoddiadau, yn hytrach na'i ailgyfeirio yn ôl i bwrs y Llywodraeth.
18. Dylai'r model olynol ymgorffori cymysgedd o opsiynau ariannol cyfunol, gan gynnwys grantiau a chyfryngau cwbl ad-daladwy, sy'n gymesur ac yn gweddu i'r canlyniadau ffafredig.
19. Mae cymysgedd o fuddsoddiad yn cynnig nifer o fanteision amlwg dros ddefnyddio cyllid grant yn unig. Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r angen i

fudiadau'r trydydd sector arallgyfeirio eu portffolios incwm. Mae'r rheiny sydd â chysylltiad ag ystod o ffynonellau incwm yn gwneud yn well na'r rheiny sydd ond yn derbyn un ffynhonnell incwm. Mae cyfryngau ad-daladwy hefyd yn annog mwy o bartneriaethau ac amrywiaeth yn y farchnad gyda mwy o rannu risgiau a gwobrwyon, ac yn sicrhau ysgogiad economaidd pellach wrth i gyllid gael ei ailgylchu i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

20. Rhaid rhoi ystyriaeth er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gyllid fwyaf addas yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgaredd. Er enghraifft, nid yw cyllid ad-daladwy yn addas ar gyfer pob ymyriad, megis y rheiny sy'n ymdrin â'r angen lle na cheir marchnad – gan gynnwys cefnogi pobl ddigartref; cwrdd â bylchau mewn darpariaeth; cynorthwyo pobl yr effeithir arnynt gan dlodi, salwch, anabled a thrais yn y cartref er enghraifft – fel dangoswyd gan yr ystod helaeth o weithgarwch a gefnogwyd gan gyllid argyfwng yn ystod argyfwng Covid-19. I'r gwrthwyneb, os yw cymuned/mudiad yn cynllunio i gael cyfleuster sy'n cynnwys rhywfaint o weithgarwch masnachu, dylai hyn gynnwys o leiaf rhyw ffurf o gyllid ad-daladwy.
21. Mae angen buddsoddi mewn isadeiledd i gefnogi'r newid diwylliannol a'r gefnogaeth fusnes barhaus o dderbyn cyllid grant yn unig i gymysgedd o gyfryngau ariannol, megis cyllid ad-daladwy, er mwyn sicrhau'r ymgysylltiad a'r canlyniadau gorau.
22. Mae'r model cyllid ad-daladwy, a ddefnyddir gan Gronfa Tyfu Busnes Cymdeithasol CGGC (CTBC) yn ddull cyllido cymysg sy'n cysylltu cyllid grant a benthyciad. Rhoddir elfen o gyllid grant i'r mudiad derbyn (40% o'r gefnogaeth ERDF) tra darperir y gweddi fel cyllid ad-daladwy (60% o'r gefnogaeth ERDF). Mae buddion ychwanegol ynghlwm wrth CTBC, megis gostyngiad yn y swm ad-daladwy yn ddibynnol ar berfformiad. Mae'r model hwn yn annog gor-berfformio, yn cynyddu effaith buddsoddiad ac yn creu gwaddol hirdymor ar gyfer unrhyw gronfa olynol. Byddem yn gweld y math hwn o fodel fel rhan o'r mathau o fuddsoddiadau a gynigir.

Cwestiwn 4: Beth yw'ch safbwyntiau chi ynglŷn â'n cynlluniau ni ar gyfer y cyfnod pontio?

23. Ychydig o naratif sydd yn y strategaeth ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer pontio. Fodd bynnag, mae pontio di-dor yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad yw momentwm yn cael ei golli gyda chyfnodau o ychydig o weithgarwch neu ddim gweithgarwch o gwbl. Dylid blaenoriaethu trefniadau pontio, yn hytrach na'u hoedi tan ddiwedd y rhaglenni Ewropeaidd. Bydd hyn yn galluogi Cymru i gael gwynt dan ei hadain, fel arall bydd oedi anorfod i gyflawniad am hyd at ddwy flynedd.
24. Tra'n trafod ei safle gyda Llywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwarantu cyfnod o weithgarwch yn ystod y cyfnod pontio i alluogi proses bontio lyfn heb golli momentwm.

25. Os cynigir estyniad i'r rhaglenni cyfredol, o ganlyniad i'r tarfu ar y ddarpariaeth o achos Covid-19, dylai Llywodraeth Cymru geisio manteisio ar hyn. Dylai tanwariant presennol gael ei addasu at ddibenion gwahanol a'i ailgyfeirio i gefnogi datblygiad isadeiledd pontio.

Cwestiwn 5: Beth yw'r ffordd orau i ni integreiddio themâu llorweddol cydraddoldeb, datblygiad cynaliadwy, prif ffrydio rhywedd a'r iaith Gymraeg i fuddsoddiadau a gyflenwir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol?

26. Croesewir yr ymgorfforiad parhaus o'r themâu ac mae'n arddangos cyfrifoldeb cyfunol dros symud cydraddoldeb, datblygiad cynaliadwy, prif ffrydio rhywedd a'r iaith Gymraeg yn eu blaen. Bydd yr ymgorfforiad a'r cyflawniad llwyddiannus yn erbyn y rhain yn gwella ansawdd gweithgarwch a gwaddol y buddsoddiad.
27. Yr egwyddorion hyn yw conglfeini'r strategaeth ac felly mae eu gwahanu yn themâu ar wahân yn eu datgysylltu oddi wrth gynllun a chyflawniad canolog y fframwaith. Dylid ymgorffori'r themâu hyn yn rhwydd i'r rhaglenni, ac unrhyw ddarpariaeth ddilynol, er mwyn rhwystro gweithgarwch ychwanegol fel gwelir yn aml o dan y rhaglenni presennol.
28. Beirniadaeth o'r ymdriniaeth o'r themâu o fewn y rhaglenni presennol yw'r ffaith iddi ddod yn broses rifyddol yn bennaf. Yn hytrach na hynny, dylid archwilio'r symudiad tuag at system ymdriniaeth atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, wedi'i chynllunio i Gymru ac yn ymgorffori Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cwestiwn 7: Beth yw'ch safbwyntiau chi ynglŷn â'r model cyflawni arfaethedig ar gyfer cryfhau partneriaethau, cydweithio a masnachu ar draws ffiniau, o fewn y DU a chyda partneriaid rhyngwladol?

29. Mae gan y trydydd sector yng Nghymru hanes hir o ymgymryd â gweithgarwch trawsffiniol ar lefel y DU, Ewrop a byd-eang. Mae budd perthnasau cryf wedi'u datblygu trwy weithgarwch cydweithrediadol trawsffiniol yn bellgyrhaeddol o fewn y gweithgarwch a ddarperir i'n cymunedau a rhaid i ni sicrhau fod yr isadeiledd yn ei le er mwyn parhau i godi proffil Cymru.
30. Ar hyn o bryd mae'r trydydd sector yng Nghymru yn elwa o gymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau Ewropeaidd a byd-eang gan gynnwys Fforwm Dinesig Ewrop a CIVICUS. Mae'r rwydweithiau hyn yn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth, profiad a dysgu.
31. Ar hyn o bryd gwelwn gyfleoedd yn cael eu colli o ran mwynhau'r effaith o ymwneud â'r rwydweithiau hyn ac mae hyn yn aml o ganlyniad i ddiffyg adnoddau dynodedig. Croesawn y bwriad i ddarparu newid sylweddol i weithio trawsffiniol a rhyngwladol, yn enwedig o ran cynyddu'r buddion o ymwneud â'r rwydweithiau hyn.

32. Carem weld yr *Agile Seed Fund*, fel y nodwyd yn y cynnig, fel cam cadarnhaol tuag at sefydlu diwylliant o weithio trawsffiniol a byddem yn llwyr gefnogi'r dull o ddefnyddio buddsoddiadau llorweddol a meysydd blaenoriaeth.
33. *Buddsoddiadau llorweddol*
Carem weld ymdriniaeth mwy cydlynus o ymgysylltiad y trydydd sector yn rhyngwladol a gwelwn y math hwn o fuddsoddiad fel y prif ffactor i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.
34. Ym mis Chwefror 2020 trefnodd CGGC ymweliad trydydd sector â Brwsel gyda 24 o ddirprwyon o wahanol fudiadau â lefel gymysg o brofiad mewn ymwneud â rhwydweithiau a sefydliadau'r UE. Cyllidwyd y daith gan Gronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru. Pwrpas y daith oedd archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i'r sector wrth ymwneud â rhwydweithiau Ewropeaidd.
35. Dangosodd werthusiad o'r daith awydd clir am barhad o'r ymgysylltiad, ond y prif bryder oedd a fyddai gan fudiadau'r adnoddau a'r capasiti i fedru ymroi'n llawn.
36. Trwy ddarparu'r capasiti a'r adnoddau er mwyn sicrhau dull mwy cyd-drefnedig, bydd modd i fudiadau'r trydydd sector elwa o'r cyfnewid gwybodaeth a'r dysgu ar y cyd a ddaw o'r math hwn o waith mewn modd mwy costeffeithiol.
37. *Meysydd Blaenoriaeth Buddsoddi*
Mae'r sector yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni canlyniadau strategol y fframwaith hwn a gallai dysgu trawsffiniol fod yn offeryn i gynorthwyo i gynyddu ein heffaith.
38. Gellid cael cysylltiad clir rhwng yr heriau hyn ag amcanion strategol y fframwaith. Byddai'r cyllid yn galluogi partneriaid i adnabod arfer dda benodol yn rhyngwladol cyn cynnal dysgu ac ymchwil mewn perthynas â'r modd y gallai'r arfer fod yn berthnasol i Gymru. Yna, o'r dysgu hwn, gellid datblygu cynlluniau busnes penodol ar gyfer cyllido'r gweithredu.
39. Ni ddylid anwybyddu perthnasoedd o fewn y DU wrth weithio'n drawsffiniol. Mae CGGC wedi elwa'n fawr o fforwm y 5 gwlad sy'n dwyn ynghyd yr uwch dimau rheoli o ar draws y chwaer gynghorau ym mhob un o wledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon.
40. Carem weld y model hwn yn cael ei ymestyn i weithio gyda'n cydweithwyr yn y trydydd sector ym mhob gwlad gyda ffocws penodol ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gweithgarwch perthnasol.

Cwestiwn 8: Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r amcanion strategol arfaethedig ar draws y pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi? Oes amcanion eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 9: Pa fesuryddion ddylai gael eu defnyddio, yn eich barn chi, i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion strategol arfaethedig?

41. Cafodd y meysydd blaenoriaeth eu pennu cyn Covid-19 a dylid eu hailasesu yng ngoleuni'r cyd-destun newydd a'r heriau sy'n wynebu Cymru. Bydd angen buddsoddi sylweddol er mwyn cynorthwyo adferiad economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys cefnogi unigolion i ddychwelyd i neu ymuno â'r farchnad lafur – yn enwedig y rheiny a oedd yn ddifreintiedig cyn yr argyfwng. Ar ben hynny, bydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud wedi gwaethygu rhai materion cymdeithasol cymhleth. Bydd dull unigoledig i fynd i'r afael â'r rhain, gyda chefnogaeth ymrwymiad mudiadau cymunedol, yn allweddol.

42. Ymysg rhai sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi mae:

Dydy rhai o'r amcanion strategol arfaethedig ddim yn annhebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd o fewn y rhaglenni Ewropeaidd cyfredol, yn enwedig y rheiny a restrir o dan y flaenoriaeth anghydraddoldeb incwm. Tra'n cefnogi pobl i ddod o hyd i swyddi, mae cymwysterau achrededig a hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn bwysig er mwyn lleihau anghydraddoldebau incwm. Ni ddylid diystyru amcanion sy'n cydnabod rhai canlyniadau mwy meddal (a'u heffeithiau ymledol dilynol). Mae ar rai grwpiau sydd ar y cyrion, megis y rhai a gefnogir gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, angen cefnogaeth ddwys i'w symud yn agosach at y farchnad lafur ond eto mae rhai o'r canlyniadau a gyflawnir trwy'r broses hon eu hanwybyddu yn aml.

43. Mae'r term 'anghydraddoldeb incwm', a ddefnyddir i ddiffinio'r ail faes blaenoriaeth, yn camgynrychioli uchelgais y flaenoriaeth a'i hamcanion strategol. Dylid, yn hytrach, ei ddisodli â'r term 'anghydraddoldeb economaidd'. Golyga anghydraddoldeb incwm i ba raddau y caiff incwm ei ddosbarthu'n anghyfartal o fewn grŵp o bobl ond mae anghydraddoldeb economaidd yn cynnwys nodweddion eraill hefyd, megis rhywedd unigolyn, ei gefndir ethnig, anabledd, ac ati.

44. Dylid cynnwys pumed amcan strategol ym maes blaenoriaeth anghydraddoldeb er mwyn mynd i'r afael ymhellach â'r cynnydd mewn tlodi mewn gwaith mewn cartrefi sy'n gweithio, trwy wella'r nifer o fudiadau sy'n talu'r cyflog byw. Dylai'r holl gynlluniau cymhorthdal ac unrhyw swyddi a grëir trwy'r rhaglenni dderbyn tâl ar y gyfradd cyflog byw, o leiaf.

45. Yn ogystal â llunio rhan o'r flaenoriaeth anghydraddoldeb, dylai rhai o'r amcanion strategol a ddisgrifir yma gael eu cymhwyso i holl weithgarwch rhaglen trwy eu cynnwys o fewn thema llorweddol cydraddoldeb. Dylai'r rhain fod yn ofynion sylfaenol sy'n ofynnol o bob prosiect, nid ambell un dethol yn unig.

46. Mae'r trydydd amcan strategol a restrir o dan y flaenoriaeth busnes cynhyrchiol a chystadleuol yn cyfeirio at yr economi sylfaen. Mae angen diffiniad o'r economi sylfaen yn y cyd-destun hwn. Dydy rhai diffiniadau ond yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol sylfaenol, tra bod eraill yn ymestyn hyn i gynnwys bron i 70% o'r gyflogaeth yng Nghymru, gan gynnwys twristiaeth a phrifysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod unrhyw ddiffiniad a

ddefnyddir yn benodol yn cynnwys mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae'r trydydd sector yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru, a gall gynorthwyo i greu mwy o swyddi â lefelau cyflog cynaliadwy, buddion a chyfleoedd am ddyrchafiad, gan gynnwys i sectorau eraill.

47. Mae'r pedwerydd maes blaenoriaeth yn eang a thra'i fod yn galonogol ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygiad cymunedol, yn hytrach na datblygiad economaidd, mae gofyn am fwy o benodoldeb mewn perthynas â'r hyn y ceisir ei gyflawni. Fel arall, mae perygl iddo gael ei ddefnyddio i gyllido ystod eang o weithgareddau heb fod fframwaith yn ei lle i'w gefnogi'n iawn. Byddai hyn yn cynnig cyfle i gymunedau a'i asiantaethau cefnogi gynorthwyo i yrru'r newidiadau angenrheidiol i'r eco-system economaidd a chreu'r egwyddorion datblygu economaidd gorau sy'n adlewyrchu orau'r proffiliau ymddygiad sy'n bodoli yng Nghymru a'r dysgu a wnaed o ymdriniaethau a rhaglenni blaenorol. Gallai gweithgareddau gynnwys:

- Dulliau effeithiol sy'n seiliedig yn y gymuned ac sy'n datblygu cymdogaethau ac yn creu swyddi – gan ddod â swyddi o ansawdd i fwy o bobl, gan gynnwys pobl sydd fwyaf tebygol o fod yn ddifreintiedig ac yn llai tebygol o gael mynediad i ddarpariaeth prif ffrwd, gan greu amodau o well sicrwydd a symudedd economaidd i fwy o bobl
- Sicrhau bod addysg fenter ar gael yn lleol a rhannu profiadau er mwyn dylanwadu ar ddatblygiadau tebyg yn y cwricwlwm a darpariaethau eraill
- Ehangu ar y cynnig i wirfoddolwyr – gan gynnwys interniaethau – i gefnogi'r gallu i ddenu, hyfforddi a chadw'r ystod ehangaf o sgiliau a phobl o'r ystod ehangaf o gefndiroedd
- Arwain a hyrwyddo'r broses benderfynu trwy lens cyfiawnder – yn nhermau pwy sy'n gwneud penderfyniadau a phwy sy'n elwa ohonynt – er mwyn cynorthwyo i herio anghydraddoldeb systematig a hyrwyddo gwell cynhwysiad, gan gynnwys anghydraddoldeb hiliol ac economaidd a ffurfiau eraill parhaus o anghydraddoldeb.

Cwestiwn 10: Rheolau Teg, Tryloyw a Chyson: Beth yw'ch safbwyntiau ynglŷn â'r dull a ddisgrifir uchod?

48. Ceir elfen o risg ynghlwm wrth unrhyw broses grantiau. Nid yw'r lefel bresennol o archwiliad yn arddangos y defnydd gorau o adnoddau – dylai fod yn gyfrannol â'r cyllid. Wrth symud ymlaen rhaid cael cyfranoldeb yn y rheolau a gymhwysir. Er enghraifft, ni ddylai grant bychan a ddefnyddiwyd i ddatblygu gardd gymunedol fod yn destun yr un lefel o archwiliad â gweithgarwch isadeiledd sylweddol. Bu gormod o drafod ynglŷn â chostau anghymwys bychain heb gydnabyddiaeth o'r hyn a gyflawnwyd trwy'r ddarpariaeth.

49. Mae datblygiad rhaglenni newydd, a rheolau teg, cyfrannol a chyson, yn rhoi'r cyfle i Lywodraeth Cymru annog cynulliad mwy amrywiol o bartneriaid cyflenwi. O dan y rhaglenni presennol, caiff y rhai sydd fwyaf addas i arwain gweithgarwch eu rhwystro neu eu hannog i beidio ag ymgeisio. Bydd symbolau rheolau, â llai o fiwrocratiaeth (a'r weinyddiaeth gysylltiedig), yn lleihau hyn ac yn denu darparwyr newydd, gan fod cefnogi'r mudiadau hynny sydd yn y lle gorau i ymdrin â gwaith gweinyddol trwm a biwrocratiaeth yn atal arloesedd ac yn cymryd yn ganiataol bod yr un peth yn addas i bawb.

50. Roedd costau cyfradd safonol yn syniad newydd i'w groesawu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Dylai'r mecanweithiau cyllido hyn barhau a, lle bo'n bosibl, ehangu – o bosibl fel mecanwaith i fynd i'r afael â'r crynswth o dystiolaeth y gofynnir amdano, er enghraifft.
51. Ar hyn o bryd caiff rhagdaliadau eu caniatáu ar gyfer ymyriadau wedi'u harwain gan y trydydd sector. Mae'r model hwn yn cyfrannu at leihau rhai o'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflenwi. Rhaid i fodolau talu hyblyg barhau o dan raglenni yn y dyfodol.
52. Os caiff y gofyniad am gyllid cyfatebol ei ymgorffori i gronfeydd yn y dyfodol, dylai cymhwystra amser gwirfoddolwyr barhau. O dan y rhaglenni presennol, atodir gwerth ariannol at yr oriau a gyfrennir gan wirfoddolwyr, gan ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol. Mae hyn yn unigryw i Gymru. Mae'n cydnabod gwir werth cyfraniadau gwirfoddolwyr ac yn gwneud y cyllid yn fwy hygyrch i'r trydydd sector trwy gael gwared ar yr angen i ddarparu cyllid cyfatebol ar ffurf arian parod.
53. Dylai'r cylchoedd cyllido amflwydd presennol barhau er budd y rheiny sy'n cydweddu â thelerau gwleidyddol a chyllidebol confensiynol, ac yn enwedig y cylchoedd cyllido blynyddol a osodir yn aml ar fentrau a gyllidir gan y llywodraeth. Mae ymroddiad ariannol mwy hirdymor yn darparu gwell diogelwch a sefydlogrwydd.
- 54. Cwestiwn 11: A ddylid blaenoriaethu'r capasiti i gyflawni'r cynigion monitro a gwerthuso uchod?**
- 55. Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig a amlinellir ar gyfer datblygu monitro a gwerthuso ar y lefel ranbarthol a lleol?**
56. Mae'r dulliau presennol o fonitro rhaglenni a gwerthuso yn rhy dameidiog. Caiff pob gwerthusiad ei gyflawni fymryn yn wahanol ac, unwaith iddynt gael eu cwblhau, byddant yn eistedd ar eu pen eu hunain gydag ychydig yn unig o drawsgyfeirio. Mae angen mabwysiadu methodoleg symlach er mwyn rhoi trosolwg mwy cynhwysfawr o'r rhaglenni ac nid y dangosyddion perfformiad allweddol dilynol yn unig.
57. Nid yw'r system bresennol a gynigir yn mynd yn ddigon pell. Dylid datblygu system atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau, wedi'i chynllunio at bwrpas gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i saernïo o gwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylid mapio'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad a ddewiswyd yn erbyn y nodau mwyaf addas o fewn y Ddeddf. Nid yw'n realistig disgwyl i'r cyllid hwn yn unig gael effaith ar bob nod ond dylai hyn fod yn nod i gyllideb Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau cysylltiedig drwyddi draw. Bydd mwy o effaith a gwerth ynghlwm wrth fethodoleg a ddyfeisiwyd yn benodol i Gymru, mewn cymhariaeth ag addasu system sy'n bodoli eisoes.



Atodiad A

Cafodd yr enghreifftiau isod eu darparu gan fudiadau'r trydydd sector er mwyn enghreifftio rhai o'r pwyntiau a wneir yng nghwestiwn 2.

Enghraifft 1.

Gwnaed yn anhysbys

Mae gan y (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) strwythur lywodraethu cymhleth sy'n cynnwys y prif Grŵp (gydag ymglymiad y trydydd sector a defnyddwyr y gwasanaeth), Grŵp Gweithredol Integredig, Grŵp Arweiniad, Fforwm Gwerth Cymdeithasol (sy'n parhau i gael ei sefydlu) a ffrydiau gwaith niferus a grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i gyflenwi'r rhaglen drawsnewid a rheoli'r ddarpariaeth a gyllidir gan Y Gronfa Gofal Integredig (ICF). Ar lefel leol, ceir hefyd grŵp llywio a grŵp gweithredol er mwyn edrych ar ddarpariaeth leol o iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, gyda ffrydiau gwaith cysylltiedig er mwyn darparu'r rhaglen a gyllidir gan ICF a gofal canolraddol integredig (sydd â grŵp llywio a 4 ffrwd waith ei hun). Ac nid yw hyn ond ar gyfer gwariant refeniw – mae gwariant cyfalaf ICF yn strwythur cwbl wahanol eto!! Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi strategaeth newydd ynghylch trefniadau rhyddhau sydd wedi ysgogi sefydlu “partneriaethau llwybr” wedi'u harwain gan y Bwrdd Iechyd – ac felly ymlaen. Ni fwriedir hyn mewn unrhyw ffordd fel beirniadaeth o bartneriaid lleol – dyma sut mae hi, yn syml, mewn ymateb i'r strategaethau, ffrydiau cyllido, fframweithiau monitro perfformiad a methodolegau gwerthuso niferus sy'n bodoli yng Nghymru.

Byddai'n brofiad llesol i rywun fapio'r holl wahanol bartneriaethau sy'n bodoli ar draws yr holl feysydd polisi, cyfrifo'r amser a dreulir mewn cyfarfodydd a'r gost i'r pwrs cyhoeddus. Nid yw'r capasiti o fewn y trydydd sector yn ddigonol i ymwneud yn llawn â'r partneriaethau hyn, gan adael y Cyngor Gwirfoddol Sirol i wneud ei orau gydag adnoddau cyfyngedig iawn. Er gwaetha'r ymroddiad i leihau ar gymhlethdod, mae cynnig y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yn cyfeirio at nifer o strategaethau

yn ogystal â newidiadau arfaethedig i strwythurau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei thrafod ar hyn o bryd. I wlad fach, mae'n anhygoel o gymhleth ac mae'r cymlethdodau hyn yn arafu cynnydd ac yn atal creadigrwydd.

Enghraifft 2.

Mewn mater o wythnosau, mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) wedi gweithio gyda Chyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Llesiant Delta er mwyn sefydlu Hwb Cymunedol Sir Benfro, un pwynt mynediad i'r holl alwadau am gymorth a chefnogaeth ac ymholiadau'n ymwneud â COVID-19.

Mae 91 o grwpiau cefnogi cymunedol wedi'u harwain gan ddinasyddion bellach yn aelodau cofrestredig o Rwydwaith Cefnogi Cymunedol Sir Benfro, gyda PAVS yn darparu lefel ddigonol o sicrwydd i'r Hwb i wneud cyfeiriadau at aelodau'r Rhwydwaith.

Mae gan yr Hwb Cymunedol ei frand ei hun, tudalennau gwe (ar wefan Cyngor Sir Penfro), strategaeth gymunedol ar y cyd, cynllun gwobrwyo Pencampwyr Cymunedol, map rhyngweithiol a chyfeiriadur chwiliadwy ar-lein o grwpiau a gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol. Maent wedi cydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi, er enghraifft, yn ymwneud ag IDs gwirfoddolwyr, dosbarthu a chasglu presgripsiynau, dosbarthu bwyd, PPE, gwasanaethau profedigaeth, cefnogaeth i bobl ag anabledau dysgu, ac ati.

Cafwyd cytundeb rhwng partneriaid i ddwyn ynghyd ystod o wahanol ffrydiau cyllido er mwyn creu'r Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol COVID-19. Cytunwyd ar y dull integredig hwn o ddarparu grantiau o fewn cyfnod byr iawn o amser trwy weithdrefn ysgrifenedig ac, yn bwysicach, parodrwydd i wneud i bethau ddigwydd. Llwyddom hefyd i gyflymu'r broses o greu plattform cyfnewid sgiliau ar-lein trwy'r Gronfa Trawsnewid oherwydd ei fod yn darparu offeryn ar gyfer rheoli ceisiadau am gymorth a chynigion o gymorth. Eto, gwnaed y penderfyniad hwn yn gyflym mewn ymateb i argyfwng COVID-19 ac mae partneriaid ledled Cymru wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn lansio plattform Connect2 a datblygu "ymgyrch garedigrwydd" sy'n cael ei lansio'r wythnos nesaf.

Mae'n bwysig cydnabod bod y sylfaen ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a chydymddiriedaeth a pharch ymysg partneriaid sydd wedi'i osod dros gyfnod o flynyddoedd wedi sicrhau gweithio cyflym ac effeithlon er mwyn cwrdd â her COVID-19.

Enghraifft 3.

Enghraifft arall o ymrwymiad da ar lefel leol yw'r modd y mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned wedi rhagori yn y modd maen nhw wedi sefydlu a chydlynu ystod eang o gefnogaeth gymunedol nad oedd yn bodoli dri mis yn ôl. Maent wedi dwyn y triglion lleol ynghyd i ddatblygu ymatebion lleol i gwrdd â heriau lleol.

